# CYFARFOD CYNGOR BRO – COFNODION

**Dydd Mawrth 24ain Chwefror 2026 – 6:30yh**

**Festri Rhos Y Gad, Llanfairpwll**

**Presennol:**

| **Ward Braint** | | **Ward Gwyngyll** |
|---|---|---|
| Stephen Edwards (Cadeirydd) | | Gareth Cemlyn Jones |
| Alun Jones | | Gwynfor Parry |
| Ian Roberts | | John Roberts |
| Glesni Parry, | | Alys Moules Jones |
| Medwyn Roberts | | |
| | | |
| | | |
| **Cynghorwr Sirol:** | | |
| **Clerc:** | Gillian Morris | |

| **1.0** | **Ymddiheuriadau** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|
| | **Cynghorwyr Sirol** -<br>Sonia Williams, Robin Williams, Dyfed Jones. | | |
| **2.0** | **Datganiadau o Ddiddordeb** | | |
| | | | |
| **3.0** | **Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 3.1 | **Cyngor Bro**<br>• Arwydd Gorsaf Drenau – IG yn cyfarthrebu gyda Trafnidiaeth i Gymru.<br>• Cynllun Gweithredu – Prif amcanion Y Cyngor ar gyfer 2025/2026.<br>• Cytundebau – Disgwyl ymateb swyddogol gan Cymdeithas Maes Eilian | Clerc | |
| 3.2 | **Amgylchedd ac Eiddo**<br>• Maes Parcio Y Gors – SW mewn trafodaeth gyda adran briffyrdd yn CSYM. | | |
| 3.3 | **Cyllid**<br>• Ceisio am grant refeniw i gyflogi unigolyn i chwilio am grantiau ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill. | Clerc | MFAPH |
| 3.4 | **Neuadd Goffa** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Lôn Minffrwd – Parry Davies Clwyd Jones am weithredu gyda diddymu y cytundeb – Wedi derbyn ymateb gan y cyfreithwyr yn datgan bod y mater yn nwylo cyfreithwyr perchennog y ffordd. Clerc i gysylltu gyda ein cyfreithiwr yn gofyn iddi gysylltu gyda cyfreithwyr y perchennog a gofyn am ymateb o fewn 3 mis.<br>• Polisiau | Clerc | MFAPH |
| 3.5 | **Y Fynwent**<br>• Fynwent Newydd –Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. Clerc i geisio am ail ddyfynbris. | | |
| **4.0** | **Pwyllgorau Allanol - Adroddiadau er gwybodaeth**. | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | **Adroddiad Cynghorwyr Sir**<br>• Cyllideb/Treth Cyngor 2026-27<br>• Llinellau Melyn - Awgrymu cyfarfod rhwng DJ, Y Clerc Stephen Edwards i gytuno a drafftio cais ar gyfer cysidro Llinellau melyn o fewn y pentref.<br>• Cyllid “Pride in Place” Llywodraeth DU - Mae'r Cyngor wedi derbyn £1.5miliwn drwy’r gronfa yma ac mae’r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu dyrannu £750k yn uniongyrchol I Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer prosiectau cyfalaf. Yn ôl y fformiwla bydd £29,507.61 yn cael ei ddyrannu i Gyngor Cymuned Llanfairpwll.<br>• IR yn gofyn ydi’r Clerc wedi derbyn y wybodaeth uchod yn swyddogol gan CSYM. Clerc yn cadarnhau nad ydi wedi derbyn unrhyw wybodaeth hyd yma.<br><br>Fforwm Gyswllt<br>• Adroddiad wedi ei gylchredeg.<br><br>Pwyllgor Datblygu Y Gors<br>• Trafodwyd sut i symyd ymlaen gyda’r datblygiad er mwyn gwneud cynnydd.<br>• AMJ yn cynnig bod angen cynllun gwaith sydd angen ei weithredu, angen adeiladu ar bartneriaeth rhwng y pwyllgor ac y Cyngor Bro ac angen cyfarthrebu yn glir. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cynnigwyd bod y prosiect yn dwad yn ôl i'r Cyngor Bro ac ein bod yn ail sefydlu y pwyllgor Meysydd Chwarae er mwyn i ni gyd cael cydweithio gyda'n gilydd. | | |
| **5.0** | **Ceisiadau Cynllunio** | | |
| **5.1** | Cais Cynllunio: FPL/2025/309 - Clwb Pêl-droed Maes Eilian, Llanfairpwll | | |
| **5.2** | Cais Cynllunio: HHP/2026/12 - Nythfa, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll | | |
| **5.3** | Cais Cynllunio: HHP/2026/26 - Tryfer, Lôn Dryll, Llanfairpwll | | |
| **6.0** | **Penderfyniadau Cynllunio** | | |
| **6.1** | Pengorwelion, Lôn T ŷ Croes, Llanfairpwll - Caniatau | | |
| **7.0** | **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro 27.01.2026** | | |
| 7.1 | Stephen Edwards yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, Ian Roberts yn eilio. | | |
| **8.0** | **Cyfrifon a Thaliadau Mis Chwefror** | | |
| 8.1 | • Awdurdodwyd i wneud y taliadau. | | |
| 8.2 | • Clerc wedi derbyn dyfynbris gan Rialtas ar gyfer y sytstem gyllid, pawb yn hapus i dderbyn y dyfynbris. | Clerc | MFAPH |
| 8.3 | • E-bost wedi ei dderbyn gan trysorydd y Rhandiroedd gyda cais yn gofyn oes modd talu am y cyflenwad dŵr 2025 yn unig. Pawb yn cytuno ond i'r Gymdeithas Rhandirwyr fod yn sicr bod yna gyllid i dalu am eu defnydd o 2026 ymlaen. | Clerc | MFAPH |
| **9.0** | **Trafod** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 9.1 | **Croesawy a cyflwyno Cynghorwyr Newydd**<br>• Trafodwyd bod angen pecyn ar gyfer Cynghorwyr newydd<br>• Clerc i gyfarfod gyda'r Cynghorwyr Newydd cyn ei cyfarfod cyntaf.<br>• Cynghorwyr newydd i gael cyflwyniad byr ar ddechrau ei cyfarfod cyntaf. | Clerc | Ebrill 2026 |
| 9.2 | **Budreddi Cŵn**<br>• Trafodwyd mwy o finiau o amgylch y pentref, trafodwyd pwy fuasai yn eu gwagio. Felly penderfynwyd gohirio gosod biniau ychwanegol am y tro.<br>• Clerc i gysylltu gyda CSYM am fwy o arwyddion.<br>• Clerc i gysylltu gyda CSYM i gael gwybod faint o berchnogion sydd wedi cael dirwy yn y pentref.<br>• Clerc i gysylltu gyda y Cynghorwyr Sirol i geisio cael datrysiad i'r broblem. | Clerc | MFAPH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.3 | **Polisi ynglŷn a defnydd yr iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd**<br>• GP yn cynnig ein bod yn pwyso ar Un Llais Cymru ynglŷn a cael polisi iaith. Clerc i gysylltu.<br>• Clerc wedi cysylltu gyda Un Llais gyda'r ymateb "both languages must be treated equally", aeth ymlaen i ddweud nid ydym yn gallu gwrthod unrhyw berson am nad ydynt yn siarad Cymraeg ac nid ydyw yn anfantais i beidio siarad y Gymraeg. | | |
| 9.4 | **Y Fynwent Newydd - Safle**<br>• GP a JR wedi cyfarfod gyda Dylan Edwards ar gyfer yr estyniad I'r fynwent wreiddiol.<br>• Clerc i gysylltu gyda dau gwmni lleol i geisio cael dyfynbris ar gyfer adroddiad i'r safle.<br>• Clerc i gysylltu gyda Dylan Edward er mwyn cadarnhau yr adroddiadau sydd eu hangen. | Clerc<br><br>Clerc | MFAPH<br><br>MFAPH |
| 9.5 | **Diogelwch Trigolion**<br>• Mater yn cael ei drafod yn cyfarfod mis Mawrth. | | |
| 9.6 | **Cofid**<br>• Clerc yn gofyn am wybodaeth ar gyfer Un Llais Cymru i weld be oedd cyfraniad y Cyngor Bro yn ystod yr amser yma. | Clerc | MFAPH |
| 9.7 | **Afon Menai**<br>• Clerc i gysylltu gyda Fforwm Partneriaeth Afon Menai i estyn gwahoddiad i gyfarfod mis Ebrill. | Clerc | Ebrill 2026 |
| 9.8 | **Adolygiad Cymunedol**<br>• Clerc i yrru y wybodaeth unwaith eto i'r Cynghorwyr er mwyn cael ymateb i'r adolygiad. | Clerc | MFAPH |
| 9.9 | **Polion Fflag**<br>• CSYM wedi cysylltu yn caniatáu i'r Cyngor Bro osod fflagiau. Adroddiad wedi ei yrru ynglŷn a lleoliad ac amseroedd. | | |
| | Cynhelir y cyfarfod nesaf – 24ain Mawrth 2026 am 6.30yh | | |
| **** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU **** | | | |